



Holl Aelodau'r Cynulliad

11 Hydref 2017

Annwyl Aelod,

Ar 28 Medi, cyhaeddodd Llywodraeth Cymru garreg filltir ar ei siwrnai i drawsnewid gwasanaethau trên ar draws Cymru, pan anfonwyd gwahoddiadau i geiswyr gyflwyno tendrau terfynol.

Rydym wedi cydio yn frwdfrydig yn y cyfle prin hwn i greu gwasanaeth trên sy'n ateb gofynion a disgwyliadau cynyddol pobl Cymru a'i gororau.

Mae ein dull ni o gaffael yn wahanol, ond mae'n addas at ein dibenion ni. Rydym wedi canolbwyntio ar wella canlyniadau yn lle defnyddio'r dull cyffredin o gaffael gwasanaeth rheilffyrdd sy'n cynnwys cyhoeddi manyleb fanwl a gofyn i gwmnïau gyflwyno cais ar sail y gost isaf.

At y diben hwn rydym wedi treulio blwyddyn yn siarad â theithwyr, pobl nad ydynt yn teithio a rhanddeiliaid, a gwranddo arnyn nhw, ac rydym wedi defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i benni'r canlyniadau yr ydym yn disgwyl i'r gwasanaeth newydd eu sicrhau. Anogir ceiswyr i ddatblygu atebion arloesol sy'n sicrhau'r canlyniadau a nodir ac sy'n gallu, efallai, eu rhagori arnynt.

Rydym wedi gosod gwella ansawdd wrth wraidd ein system rheilffyrdd ar gyfer y dyfodol. Mae'n gofynion yn cynnwys gwasanaethau gwell, gwneud teithwyr yn fwy cyfforddus, gwella ansawdd y gwasanaeth a thrawsnewid profiad y daith ar drên. Rydym am weld trenau, gorsafoedd a systemau gwybodaeth gwell, yn benodol o ran mynediad ar gyfer pobl anabl.

Rydym wedi cyhoeddi Trafnidiaeth Cymru - Gwasanaethau Trên ar gyfer y Dyfodol. Mae hwn yn rhoi mwy o fanylion ynghylch ein gofynion o ran y gwasanaethau a'r atebion yr hoffem eu gweld gan gynigwyr. Gellir gweld yma:

<http://gov.wales/topics/transport/transport-for-wales/procurement/rail-services-for-the-future/?skip=1&lang=cy>

Ein bwriad yw creu gwasanaeth rheilffyrdd a ddaw â budd i Gymru gyfan ac i gymunedau ar hyd y ffin yn Lloegr. Rydym am weld y gwasanaeth rheilffyrdd nesaf yn newid barn pobl am drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru a dod yn ddewis y gellir dibynnu arno ar gyfer teithio i'r gwaith ac i gyrraedd gwasanaethau megis addysg, iechyd neu hamdden.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae diogelwch, dibynadwyedd i'r gwasanaeth i gwsmeriaid yn parhau i fod yn allweddol i'n dyheadau. Ein huchelgais ar gyfer Metro De Cymru yw iddo fod yn rheilffordd integredig, lle bydd un gadwyn gyflenwi a reolir gan Lywodraeth Cymru yn gyfrifol ddarparu gwasanaeth â'i ffocws ar y trac, trenau a theithwyr. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddatblygu yng ngoleuni anghenion a buddion tymor hir lle bydd atebion yn cael eu datblygu ar sail ystyriaethau cynaliadwy a moesegol. Ein bwriad yw defnyddio'r arbenigedd y byddwn yn ei ddatblygu wrth roi Metro De Cymru ar waith i gyflwyno Metro Gogledd-ddwyrain Cymru a systemau metro yn rhannau eraill o Gymru.

Cyflwynir cynigion ar ddiwedd mis Rhagfyr ac erbyn gwanwyn y flwyddyn nesaf byddwn wedi cyhoeddi ein partner a ffeirir ar gyfer datblygu gwasanaethau rheilffyrdd yn y dyfodol.

Yn gywir



Ken Skates AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure